+ Our Future Health

# Ffurflen cydsyniad

**Prif Ymchwilydd:**
Dr Raghib Ali
o Our Future Health

Os ydych chi'n dymuno cymryd rhan yn y rhaglen ymchwil Our Future Health, darllenwch y Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr - dyddiedig 06/03/2026 (fersiwn 4.0) - a darllenwch y datganiadau canlynol. I gymryd rhan, mae angen i chi gytuno i'r holl ddatganiadau isod. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rhaglen neu ynglŷn â chymryd rhan, cysylltwch â'n tîm cymorth drwy anfon e-bost at support@ourfuturehealth.org.uk neu drwy ffonio 0808 501 5634.

Drwy gytuno i gymryd rhan yn Our Future Health, rwy'n deall y canlynol:

***DIM OND AR GYFER GWYBODAETH***

1. Bydd Our Future Health yn cael mynediad at, yn storio ac yn cysylltu â chofnodion am fy iechyd a gedwir gan sefydliadau yn y DU ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban – gan gynnwys y GIG, a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ymchwil iechyd i'r GIG. Rwy'n deall y gall y cofnodion gynnwys manylion am fy statws iechyd presennol neu flaenorol, gan gynnwys unrhyw ddiagnosis a thriniaethau a gefais.

   Rwy'n deall y bydd angen i Our Future Health hefyd storio a rhannu rhywfaint o wybodaeth adnabyddadwy â'r sefydliadau hyn, fel fy rhif GIG, fy enw a'm dyddiad geni, er mwyn galluogi Our Future Health i gysylltu'r wybodaeth hon â'm cofnodion iechyd a'r wybodaeth arall sydd ganddynt amdanaf.

2. Cyn belled â fy mod yn aros yn y rhaglen, bydd Our Future Health yn parhau i ddefnyddio fy nata ac yn casglu ac yn defnyddio fy ngwybodaeth iechyd gysylltiedig ar gyfer ymchwil a dadansoddi yn ystod fy oes, ac wedyn.

3. Bydd samplau gwaed a roddaf i Our Future Health yn cael eu storio a'u defnyddio ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig ag iechyd. Rwy'n deall y gallai fy samplau a'm data dienw gael eu hanfon at broseswyr cymeradwy y tu allan i'r DU i'w dadansoddi.

4. Bydd DNA (gwybodaeth enetig) yn cael ei dynnu o fy ngwaed. Rwy'n deall y bydd fy DNA yn cael ei ddadansoddi ar gyfer ymchwil sy'n ymwneud ag iechyd gan ddefnyddio technoleg o'r enw 'arae SNP', ac y gellid defnyddio technolegau eraill hefyd, fel dilyniannu genomau.

5. Ni fyddaf yn derbyn adborth personol yn awtomatig o'r ymchwil, ond bydd rhywun yn cysylltu â mi yn y dyfodol ac yn gofyn ydw i eisiau derbyn adborth personol yn codi o'm samplau neu ddata.

6. Gallai ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo i gael mynediad at, a storio, yr wybodaeth a gasglwyd gan Our Future Health ddod o sefydliadau academaidd, elusennau neu gwmnïau yn y DU neu dramor.

7. Efallai y bydd Our Future Health yn cysylltu â mi eto yn y dyfodol, gan gynnwys i wneud y canlynol:

- Anfon newyddion a diweddariadau ataf am y rhaglen ymchwil.
- Gofyn i mi am fy mhrofiadau o gymryd rhan.
- Gofyn i mi lenwi holiaduron ychwanegol.
- Gofyn am fy nghaniatâd i gasglu gwybodaeth berthnasol amdanaf o ffynonellau eraill.
- Fy ngwahodd i roi samplau biolegol (pellach), gan gynnwys gwaed.
- Fy ngwahodd i ddod i apwyntiad ar gyfer asesiadau eraill, fel delweddu.
- Gofyn i mi ydw i'n dymuno derbyn gwybodaeth bersonol sy'n deillio o'm samplau neu ddata.
- Fy ngwahodd i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil eraill. Gallai hyn fod yn seiliedig ar wybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd amdanoch chi, fel eich genynnau, arferion ffordd o fyw neu gyflyrau meddygol.

8. Gallaf dynnu'n ôl o Our Future Health unrhyw bryd heb roi rheswm. Rwy'n deall, os byddaf yn gadael Our Future Health, y gallai rhywfaint o ymchwil fod wedi cael ei gynnal eisoes gan ddefnyddio fy nata a'm samplau, ac na ellir dadwneud hyn.

**Gwybodaeth ychwanegol i gyfranogwyr sy'n ymuno ag Our Future Health drwy NHSBT (Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG) mewn apwyntiad rhoi gwaed.**

Drwy ymuno ag Our Future Health drwy apwyntiad rhoi gwaed gan NHSBT, rwy'n deall y canlynol:

- Bydd Our Future Health yn rhannu gwybodaeth enetig benodol amdanaf o'm sampl gwaed gyda NHSBT. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fy nghelloedd gwaed coch, mathau o blatennau, isdeipiau HLA a grwpiau celloedd gwaed gwyn.
- Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i wella'r broses baru ar gyfer pobl sy'n cael trallwysiadau a thrawsblaniadau bôn-gelloedd ac organau ac i helpu i wneud cynhyrchion y gellir eu defnyddio i helpu ar gyfer diagnosio, atal a thrin clefydau, gwaith labordy, addysg a hyfforddiant.
- Bydd Our Future Health yn rhannu fy ngwybodaeth bersonol adnabyddadwy gyda NHSBT er mwyn helpu i gysylltu gwybodaeth enetig o'm sampl gwaed â'm cofnod rhoddwr.

Rwy'n cytuno i gymryd rhan yn y rhaglen ymchwil Our Future Health.